YR YSTWYLL 5

ESEIA 6:1-8 [9-13]; SALM 138;
1 CORINTHIAID 15:1-11; LUC 5:1-11

● Gweddi agoriadol

Datguddia dy hun, Dduw grasol,
ar adeg ein haddoli.
Siarad â ni drwy'r caneuon a ganwn,
y gweddïau a lefarwn, y geiriau a glywn.

Datguddia dy hun, Dduw grasol,
o fewn dy deulu yma.
Yn ein siarad a'n gwrando,
ein dagrau a'n chwerthin, rhennir cariad.

Datguddia dy hun, Dduw grasol,
o fewn y dyddiau nesaf,
yn y mannau lle trigwn,
gyda'r bobl a gwrddwn, mewn gwaith a chwarae.

● Moliant

Mae'r ddaear hon, sy'n llawn o'th ogoniant,
yn clodfori dy enw
mewn geiriau mud o harddwch a thangnefedd;
yn datguddio dy gariad
drwy law'r dieithryn a rhodd gras.

Mae'r ddaear hon, sy'n llawn o'th ogoniant,
yn clodfori dy ddarpariaeth
drwy ddŵr rhedegog a bwyd i'w fwyta;
yn datguddio dy air
drwy fendithion dyddiol a bara'r bywyd.

Mae'r ddaear hon, sy'n llawn o'th ogoniant,
yn clodfori dy enw.

● **Cyffes**

Os methom adnabod dy gariad
yng ngweithred cyfaill neu ddieithryn,
maddau i ni.

Os methom adnabod dy lais
drwy glebran ein byd,
maddau i ni.

Os methom gofio dy gariad
ym mhrysurdeb ein bywyd bob dydd,
maddau i ni.

Adnewydda ein calonnau mewn addoliad.
Adnewydda ein meddyliau mewn doethineb.
Adnewydda ein dwylo mewn gwasanaeth
a boed i'n bywydau dyfu
yn offrwm bodlon i ti.

● Diolch

Rwyt yn ein herio i'th ddilyn,
nid drwy aros ble rydym
ond drwy gamu ymlaen mewn ffydd,
yn bwrw ein rhwyd i ddyfroedd dyfnach,
fel y gwnaeth Simon Pedr, y pysgotwr.

Rwyt yn ein herio i ymddiried ynot
a bod yn barod am bob
posibilrwydd,
hyd yn oed pan fo'r llwyth yn drwm
a'r daith yn anodd.

Ond gyda'th her
daw bendith,
wrth i rwydau tila gael eu llenwi
ac i fywydau toredig gael eu cyfannu,
wrth i wacter droi yn llawnder.

Diolch am yr her.
Rho i ni ddigon o ffydd i ddilyn
a digon o nerth i barhau.
Drwy Grist yn unig y gofynnwn.